Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)

# Cylch Gorchwyl

## Hydref 2023

# Cyflwyniad

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth weithio i gyflawni'r nod hwn, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Comisiynydd i reoli'r adnoddau a ddarparwyd yn briodol, er mwyn i'w swyddfa gyflawni ei rhwymedigaethau statudol. Fel endid corfforaethol un person, rhaid iddi sicrhau hefyd fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod ei swyddfa'n cael ei rheoli a'i llywodraethu'n briodol. Sefydlwyd Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc, Panel Ymgynghorol y Comisiynydd a Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'w chefnogi a'i chynghori yng nghyswllt y cyfrifoldebau hyn - ac mae pob un ohonynt yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd.

# Rôl y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni ei dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae aelodau'r Pwyllgor, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd, yn adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r systemau sicrwydd a roddwyd ar waith i gyflawni anghenion Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiynydd ac adolygu dibynadwyedd ac integriti'r systemau hynny. Yn ymarferol, mae aelodau'r Pwyllgor yn adolygu ac yn herio'r sicrwydd a roddir gan staff y Comisiynydd a'i harchwilwyr mewnol ac allanol, ac yn ei chynghori ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

# Aelodaeth

## Aelodau Anweithredol

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod nad ydynt yn gweithio i'r Comisiynydd, a gelwir y rhain yn Aelodau Anweithredol. Penodir yr aelodau o Baneli Ymgynghorol y Comisiynydd ac mae'n rhaid iddynt gynnwys Cadeirydd Panel Ymgynghorol y Comisiynydd. Gall gynnwys hefyd aelodau cyfetholedig sydd â'r arbenigedd angenrheidiol o ran cyllid a llywodraethiant er mwyn sicrhau bod gan o leiaf un aelod wybodaeth ac arbenigedd ariannol sy'n cydymffurfio â gofynion Trysorfa Ei Mawrhydi.

Bydd y Comisiynydd yn penodi aelod yn gadeirydd ar y Pwyllgor.

Bydd pob aelod yn cael eu penodi am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, gyda'r opsiwn o estyn hynny am hyd at dair blynedd arall. Ni fydd ailbenodi pellach fel arfer yn cael ei ganiatáu, ond o dan amgylchiadau eithriadol, mae modd caniatáu penodi am 12 mis arall, os bydd y Comisiynydd yn penderfynu hynny, gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor.

Gall y Comisiynydd benodi unigolion eraill i ymuno â'r Pwyllgor er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor y lefel briodol o sgiliau a phrofiad i fodloni gofynion Trysorfa EM.

## Staff y Comisiynydd

Comisiynydd Plant Cymru

Y Dirprwy Gomisiynydd/Pennaeth Ymgysylltu

Pennaeth Cyllid

Swyddog Cymorth Gweithredol i’r Comisiyydd, sy’n darparu cefnogaeth Ysgrifenyddol i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

### Eraill

Cynrychiolwyr o archwilwyr mewnol y Comisiynydd (TIAA ar hyn o bryd), sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru (archwilwyr allanol), sy'n cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y Côd Ymarfer Archwilio.

## Gwrthdaro Buddiannau

Fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, mae pob aelod o'r Pwyllgor yn llenwi datganiad buddiannau blynyddol, a gedwir yn unol â'r holl reoliadau diogelu data perthnasol a Pholisi Cadw Dogfennau'r Comisiynydd. Ar ben hynny, mae'r eitem gyntaf ar agenda unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor yn caniatáu ar gyfer datgan unrhyw fudd penodol i eitemau agenda'r cyfarfod hwnnw.

## Taliadau

Nid yw'r aelodau'n derbyn unrhyw dâl, ond gallan nhw gael ad-daliad am unrhyw dreuliau y maen nhw wedi gorfod eu talu. Dylai'r aelodau gyflwyno hawliadau o'r fath yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd.

## Hyfforddiant

Bydd unrhyw anghenion hyfforddi yn cael eu nodi trwy restr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer Effeithiolrwydd Pwyllgorau Archwilio, sydd i'w chwblhau gan yr aelodau yn flynyddol. Bydd y Cadeirydd yn trafod yr anghenion hyn gyda'r Comisiynydd a'i thîm o staff, a fydd yn cael hyd i'r hyfforddiant perthnasol. Ar ben hynny, bydd gofyn bod darparwyr archwilio mewnol y Comisiynydd yn darparu hyfforddiant ar reoli risg i bob aelod yn flynyddol.

## Adrodd am Effeithiolrwydd a'i Adolygu

Bydd y Swyddog Cymorth Gweithredol yn cymryd cofnodion ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor, a byddant yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

Rhaid i'r Pwyllgor ddarparu Adroddiad Blynyddol ar ei waith am y flwyddyn i'r Comisiynydd. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Gwanwyn, a bydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiynydd.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol hwn gan y Pwyllgor gynnwys adolygiad o'u heffeithiolrwydd, yn unol â gofynion Trysorfa EM, a bydd wedi'i seilio ar restr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer Effeithiolrwydd Pwyllgorau Archwilio.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynghori'r Comisiynydd ar y canlynol:

- prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethiant;
- Datganiad Llywodraethu y mae'n ofynnol ei gynnwys yn y cyfrifon blynyddol;
- polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiynydd, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno ar gyfer eu harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y Comisiynydd at yr archwilwyr allanol;

- gweithgaredd a gynlluniwyd a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol;
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys llythyr rheoli archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol swyddfa'r Comisiynydd;
- cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu brynu gwasanaethau heblaw archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio; a
- pholisïau gwrth-dwyll, prosesau datgelu camarfer, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Gall y Comisiynydd hefyd, o bryd i'w gilydd, ofyn i aelodau unigol o'r Pwyllgor roi cyngor ar faterion strategol ac eraill sy'n ymwneud â'i chylch gorchwyl. O dan amgylchiadau o'r fath ni chaiff yr aelodau weithredu mewn capasiti rheoli neu weithredol i'r Comisiynydd o dan unrhyw amgylchiadau.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn flynyddol.

# Hawliau

O dan amgylchiadau eithriadol gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod heb fod yn hwy na blwyddyn, i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol; neu gaffael cyngor arbenigol ad-hoc yn amodol ar gyllidebau y cytunwyd arnynt gan y Comisiynydd.

Gall aelodau'r Pwyllgor gael mynediad hefyd at ddogfennau swyddogol sydd ym meddiant swyddfa'r Comisiynydd, os bernir bod angen hynny i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau.

# Mynediad

Mae gan Bennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

# Cyfarfodydd

- Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol, os bernir bod angen hynny, neu os bydd y Comisiynydd yn gofyn am hynny;
- Bydd rhai, neu’r cyfan, o’r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn rhithwir. Bydd y staff sy’n trefnu’r cyfarfodydd rhithwir hyn ac yn eu mynychu yn cadw at weithdrefn ddiogelu’r Comisiynydd. Dylai pob aelod allanol sy’n mynychu’r cyfarfodydd rhithwir hyn wneud pob ymdrech i sicrhau bod y cyfarfod yn lle diogel trwy gadw at y canlynol:
    - Peidiwch â rhannu’r ddolen na’r pas i’r cyfarfod rhithwir gyda neb;
    - Gofalwch eich bod yn ymuno o le tawel, preifat i leiafu’r risg y bydd unrhyw un yn digwydd clywed y trafodaethau;
    - Gofalwch eich bod yn ymuno gan ddefnyddio’r fersiwn ddiweddaraf o’r platfform (cysylltwch â staff y Comisiynydd os bydd angen cymorth arnoch chi gydag unrhyw faterion TG);
    - Peidiwch â recordio’r cyfarfod.
- rhaid i isafswm o ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i ddyfarnu bod cworwm yn y cyfarfod;
- fel arfer bydd y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd/Pennaeth Ymgysyllu, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol (neu gynrychiolydd), cynrychiolydd Archwilio Allanol a Chadeirydd Panel Ymgynghorol y Comisiynydd yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor;
- bydd agenda'r cyfarfodydd yn cael ei seilio ar y rhaglen waith a amlinellir yn Atodiad A;
- gall y Pwyllgor ofyn i swyddogion eraill fod yn bresennol i gynorthwyo gyda thrafodaethau ar unrhyw fater penodol;

- gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai neu bawb o'r rhai sy'n arfer bod yn bresennol ond nad ydynt yn aelodau adael y cyfarfod er mwyn hwyluso trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol;
- gall y Pwyllgor ymchwilio i unrhyw fater sy'n rhan o'i gylch gorchwyl;
- dylai Cadeirydd y Pwyllgor gael mynediad at Benaethiaid Archwilio Allanol ac Archwilio Mewnol;
- dylai aelodau'r Pwyllgor gael mynediad at unrhyw weithiwr neu wybodaeth gysylltiedig wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau fel rhan o'r pwyllgor;
- dylai'r Pwyllgor gwrdd ag Archwilio Mewnol ac Allanol yn flynyddol o leiaf heb i reolwyr y Comisiynydd fod yn bresennol.

# Gofynion o ran Gwybodaeth

Ar gyfer pob cyfarfod bydd y Pwyllgor yn cael y canlynol:

- adroddiad ariannol
- y fersiwn ddiweddaraf o'r Gofrestr Risgiau gorfforaethol;
- crynodeb o'r camau gweithredu sy'n ymwneud â seiber ddiogelwch;
- crynodeb o weithgarwch y Comisiynydd mewn perthynas â'i strategaeth tair blynedd;
- adroddiad perfformiad gan y Dirprwy Gomisiynydd/Pennaeth Ymgysylltu;
- adroddiad cynnydd gan Bennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd (ac yn cymharu hynny â'r gwaith a gynlluniwyd), y materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, adroddiadau diweddaraf archwilio mewnol, ac ymateb rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
- unrhyw newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
- unrhyw faterion darparu adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion Archwilio Mewnol;
- adroddiad cynnydd gan Archwilio Allanol yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg; ac
- unrhyw eitemau perthnasol i'w nodi gan Banel Ymgynghorol y Comisiynydd.

Yn ôl fel y bydd hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor hefyd yn cael:

- cynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol;
- y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r cynllun gwaith blynyddol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau Sicrhau Ansawdd ar y swyddogaeth Archwilio Mewnol;
- yr adroddiad blynyddol drafft a chyfrifon swyddfa'r Comisiynydd;
- y Datganiad Llywodraethu drafft;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Swyddfa Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Swyddfa Archwilio Cymru;
- llythyr rheoli Swyddfa Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar gydweithrediad rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol; a
- Pholisi Rheoli Risg y Comisiynydd.

# Atodiad A: Rhaglen waith

Yn ogystal â'r eitemau sefydlog canlynol fydd ar yr agenda, bydd y Pwyllgor yn gweithio ar yr elfennau a nodir yn y tabl isod:

- Adroddiad Cyllid
- Rheoli Risg
- Adroddiad Performance
- Adroddiad gan y Comisiynydd
- Diweddariad Archwilio Mewnol
- Diweddariad Archwilio Allanol

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod y Gwanwyn (Ebrill/Mai)** | Mae cyfarfod preifat i gael ei gynnal rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg cyn i'r prif gyfarfod gychwyn |
| | Cynghori ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn sydd newydd orffen, i'w gyflwyno ochr yn ochr â'r cyfrifon terfynol |
| | Adolygu cynllun gwaith cyfnodol terfynol Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd gychwyn |
| | Y Pwyllgor i gyflwyno Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu gwaith y flwyddyn flaenorol i'r Comisiynydd erbyn mis Mai |
| **Cyfarfod yr Haf (Mehefin/Gorffennaf)** | Mae cyfarfod preifat i gael ei gynnal rhwng yr Archwilwyr Allanol ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg cyn i'r prif gyfarfod gychwyn |
| | Ystyried barn Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd orffen |
| | Gwneud sylwadau ar gyfrifon y flwyddyn sydd newydd orffen cyn cytuno arnynt yn derfynol a'u cyflwyno i'w harchwilio |
| | Ystyried barn Archwilio Allanol (sy'n dod i'r amlwg) ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd orffen |
| | Trafod goblygiadau canlyniad adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu o effeithiolrwydd y system reoli fewnol mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu |
| **Cyfarfod yr Hydref (Hydref)** | Ystyried adroddiad canol blwyddyn ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Archwilio Mewnol |
| | Ystyried llythyr rheoli Archwilio Allanol ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o waith cyfredol Archwilio Allanol yn y cyfamser/o fewn y flwyddyn |

| | |
|---|---|
| | Ystyried unrhyw gamau sy'n dal heb eu cymryd oedd yn deillio o waith y flwyddyn flaenorol, o ran archwilio mewnol ac allanol |
| **Cyfarfod y Gaeaf**<br><br>**(Ionawr/Chwefror)** | Craffu ar y Cynllun Archwilio Allanol |
| | Cynghori ar y strategaeth archwilio mewnol a'r cynllun gwaith cyfnodol ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. |
| | Ystyried meysydd lle bydd y Pwyllgor yn mynd ati'n arbennig i hybu cydweithredu rhwng archwilwyr a chyrff adolygu eraill yn y flwyddyn sy'n dod. |
| | Edrych eto ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan yr archwilwyr ac adolygu camau mewn ymateb i lythyr rheoli Archwilio Allanol. |
| | Ystyried effeithiolrwydd y Pwyllgor ei hun yn ei waith, a thrafod amserlen a chytuno ar gamau gweithredu yng nghyswllt adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor i'r Comisiynydd. Dylai'r adroddiad drafft hwn gael ei gyflwyno gan y Pwyllgor i Gadeirydd y Panel Ymgynghorol i'w ystyried yn barod i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y gwanwyn. |